

EISTEDDFOD CFFI CYMRU – 2011 – WALES YFC EISTEDDFOD

Parti Llefaru 26 neu iau



Ray Gravell

Roedd ffrwydriadau ar y sgrin –
Grav oedd yno yn ymdrin
Â rygbi.

Roedd cynhesrwydd yn y radio;
Fo oedd yno yn ymgomio –
Felly'r oedd o.

Roedd gwisgo jersi goch yn tanio
Ynddo genedl hen y Cymro –
Halcliwia.

Roedd o yno'n gawr cyhyrog
Yn dal y cledd uwch bardd y Steddfod –
Dyna fo.

Roedd egni angerdd ein Cymreictod
Yn gryfach ynom o'i adnabod –
Dyna Grav.

Roedd calonnau pawb yn curo
Yn llawenach o gael sgwrsio
Gydag o.

Roedd 'na olau yn ei galon
A wnâi i ni, bob un ohonom,
Deimlo'n well.

Mae hi'n Dachwedd yma heno,
Du, digofus; gaeaf eto
Arnom hebddo.

Mae mudandod ar y sgrin,
Nid yw o yno i ymdrin
Â'n bywydau.

Ond ni wna'i angerdd o ddadfeilio,
Ni wna'i afiaith o ddim peidio,
Ni wna'i ysbryd o edwino
Tra bôm ni sydd yma'n cofio.

Roedd 'na rywbeth a oedd ynddo
Oedd yn cyffwrdd ac yn deffro
Grym graslonrwydd:
Diolch iddo.

Gwyn Thomas